Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

2017 dccc 3

RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

Grwpiau corfforaethol

81 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â dynodi grwpiau o gwmnïau

(1) Caiff rheoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth ynglŷn â dynodi grwpiau o gyrff corfforaethol, ei diddymu neu ei diwygio fel arall.

(2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill) ynglŷn â'r cyrff corfforaethol y caniateir eu dynodi'n aelodau o grŵp ac ynglŷn ag effeithiau dynodiad.